**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30 MAI 2012**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## EITEM AR GYFER Y PWYLLGOR CYNLLUNIO DIWEDDARIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO – FERSIWN 4

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Hysbysu Aelodau o fân newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo. Cyflwynir y newidiadau er gwybodaeth cyn eu cyflwyno i'w hawdurdodi gan y Cyngor Llawn.

### 2. CEFNDIR

Y Cynllun Dirprwyo yw'r ddogfen sy'n dangos pa benderfyniadau y gellir eu cymryd ar lefel swyddogion a pha rai sydd raid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cynllun Dirprwyo'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn

Mae'r newidiadau yn yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

| **Paragraff (V4)** | **Newidiad** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| 2.1.4 | Geiriau ychwanegol ...("dewisiadau sgrinio a chwmpasu)" | Ychwanegwyd y geiriau i'w gwneud yn gliriach fod dewisiadau sgrinio a chwmpasu yn fathau penodol o hysbysu ar gyfer Asesiadau Effeithiau Amgylcheddol. |
| 2.1.12 | Geiriau ychwanegol ".…. / nodiadau i ymgeiswyr | I'w gwneud yn gliriach. |
| 2.1.14 | Paragraff ychwanegol<br><br>(a) Ymateb i ymgynghoriadau barn sgopio Asesiadau Effethiau Amgylcheddol y Comisiwn Cynllunio Seilwaith<br>b) Ymateb i ymgynghoriadau datblygwyr ar ddrafftiau Datganiadau Ymgyghori Cymunedol (SoCC)<br>c) Ymateb i ymgynghoriadau'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ar ba mor ddigonol yw ymgynghoriadau cyn-cais datblygwyr | Ychwanegwyd y parpagraff hwn er mwyn sicrhau fod gan Swyddogion hawl i ymateb i ymgynghoriadau'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. |
| 2.2.11 | Paragraff ychwanegol<br><br>Unrhyw gais a wneir gan gwmni neu unigolyn ynghylch tir neu | Bwriad y paragraff hwn yw gwneud ceisiadau a gyflwynir gan drydydd parti ynghylch tir ym mherchnogaeth y Cyngor yn fwy tryloyw pe byddai'r Cyngor yn debyg o elwa'n ariannol o werthu neu |

| | | |
|---|---|---|
| | adeiladau ym mherchnogaeth y Cyngor pe byddai'r Cyngor yn debyg o elwa'n ariannol o werthu neu brydlesu'r tir neu'r adeiladau. | brydlesu'r tir neu'r adeiladau. |
| 2.2.12 | Paragraff ychwanegol<br><br>Unrhyw ymgynghori ffurfiol cyn-cais (Adran 42) ar gynlluniau'r Comiswin Cynllunio Seilwaith a hefyd geisiadau ffurfiol i'r Comisiwn (Adroddiadau Effeithiau Lleol) ac unrhyw sylwadau eraill, ffurfiol, ar y cyfnod archwilio. | Bwriad y paragraff hwn yw sicrhau y bydd pob ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol cyn-cais ar gynlluniau'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ac Adroddiadau Effeithiau Lleol y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hawdurdodi. Mae hefyd yn cynnwys sylwadau ffurfiol yn ystod y cyfnod archwilio. |
| 2.2.13 a 2.2.14 | Paragraff ychwanegol<br><br>2.2.13 Unrhyw gais sydd wedi'i benderfynu gan y Pwyllgor o'r blaen ond a allai, ym marn y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol, olygu un o'r canlynol:-<br>a) gwyriad arwyddocaol o'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd<br>b) cais a allai olygu risg arwyddocaol y byddai costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor mewn unrhyw Apêl, her gyfreithiol neu ymchwiliad yr Ombwdsmon<br><br>2.2.14 Bydd unrhyw adroddiad a ddaw yn ôl i'r Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch y ddau faes a) a / neu b) uchod | Mae Fersiwn 3 y Cynllun Dirprwyo yn caniatau i'r Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio fynd â chais i'r Cyngor Llawn os bydd o'r farn y byddai'n wyriad arwyddocaol o'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd. Mae hefyd yn caniatau i'r Cyngor Llawn benderfynu os, yn seiliedig ar gyngor Swyddogion, y teimlir y byddai tebygolrwydd cryf y byddai costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor mewn unrhyw Apêl cynllunio, her gyfreithiol neu ymchwiliad yr Ombwdsmon<br><br>Mae'r geiriad a awgrymir ym mharagraff 2.2.13 a 2.2.14 yn disodli adran 2.3 – Penderfyniadau Lefel Cyngor Llawn. Bwriad y geiriad yn y cynllun arfaethedig yw galluogi cymryd achosion yn ol i'w penderfynu yn y Pwyllgor Cynllunio yn hytrach nag yn y Cyngor Llawn pe byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio o'r farn eu bod yn bodlonni'r meini prawf perthnasol. |

Mae'r cynllun newydd (Fersiwn 4) wedi'i atodi wrth yr adroddiad hwn i Aelodau (**atodiad A)**. Mae copi ynghlwm hefyd o'r cynllun presennol (Fersiwn 3) er gywbodaeth (**atodiad B**). Os bydd unrhyw Aelod yn dymuno cynnwys y protocol ymhellach dylid cysylltu ag un ai:-

Paul Mead, Rheolwr Rheoli Datblygu a Chydymffurfiad – 6712
Judith Williams, Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Cwsmer – 6722.

## 3. ARGYMHELLIAD

Fod Aelodau'n cymeradwyo cynnwys yr adroddiad hwn.